Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

25 Mehefin 2020

Annwyl Lywydd

Craffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd y DU

Ar 14 Mai 2020, ysgrifennais ar y cyd â Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, mewn perthynas â'r terfyn amser a osodwyd ar gyfer trafodaethau ein pwyllgorau ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Amgylchedd y DU (y Bil).

Bryd hynny, gwnaethom gais am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad yn rhannol oherwydd yr oedi yn hynt y Bil drwy Senedd y DU. Rwy'n ymwybodol bod Tŷ'r Cyffredin wedi cytuno i ymestyn y cyfnod sydd ar gael i'r Pwyllgor Bil Cyhoeddus perthnasol gwblhau ei waith ar y Bil ymhellach, gan symud y terfyn amser o 25 Mehefin 2020 i 29 Medi 2020.

O ystyried yr oedi pellach i'r amserlen Seneddol, a'r ffaith bod busnes yn ymwneud â COVID a nifer o femoranda cydsyniad deddfwriaethol eraill Llywodraeth Cymru wedi cymryd cryn dipyn o'n hamser, byddem yn ddiolchgar pe bai'r Pwyllgor Busnes yn cytuno i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad ymhellach i 17 Gorffennaf 2020.

Yn fwy cyffredinol, hoffwn ofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried gwahodd y Trefnydd i roi diweddariadau mwy rheolaidd ar hynt Biliau'r DU sy'n destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod y terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau a bennir gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer pwyllgorau'r Senedd yn parhau i fod yn briodol ac y gellid eu hymestyn yn rheolaidd yn ôl yr angen.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir,

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.